Polisi Amgylcheddol

a

Chynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Datganiad o’r Polisi a’r Nodau

Yn yr ICO rydym yn deall bod gwneud ein gwaith fel rheoleiddiwr a chyflogwr effeithiol yn gofyn defnyddio adnoddau naturiol, ynni ac ystod eang o gyflenwadau a gwasanaethau.

Mae'r ICO wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol a allai ddeillio o gynnal ein gweithgareddau. Does gan yr ICO ddim swyddogaeth na chyfrifoldeb rheoli tir yn yr un o'i swyddfeydd.

Byddwn yn archwilio ac yn gweithredu ffyrdd o weithio sy'n ein helpu i weithredu mewn modd sy'n gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, yn lleihau niwed i'n hecosystem ac yn gwella’n perfformiad amgylcheddol yn barhaus.

Defnyddiwn ein safle fel sefydliad amlwg a phrynwr arwyddocaol ar nwyddau a gwasanaethau i annog rhanddeiliaid a chyflenwyr i fabwysiadu arferion sy'n amgylcheddol gyfrifol.

Rydym o dan ddyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i lunio a diweddaru Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o leiaf bob tair blynedd. Mae'r cynllun Adran 6 hwn yn manylu ar ymagwedd yr ICO ac yn cynnig enghreifftiau o'r camau a gymerir i helpu bioamrywiaeth.

Ein hamcanion amgylcheddol

I’n helpu i gyflawni'r nodau hyn, rydym yn ymrwymo i’r canlynol:

- lleihau faint o ynni a dŵr a ddefnyddiwn;
- lleihau faint o CO2 sy'n deillio o'n gweithgarwch a gwrthbwyso allyriadau CO2 lle bo modd;
- sicrhau'r gyfran fwyaf posibl o'r ynni a ddefnyddiwn o ffynonellau ynni adnewyddadwy ac amgylcheddol gyfrifol;
- lleihau'r defnydd ar gynhyrchion untro, plastigau a chemegau niweidiol lle bo'n ymarferol;
- hybu a hwyluso ailgylchu gwastraff;
- cysylltu â mentrau lleol ar faterion amgylcheddol a’u cefnogi;
- lleihau neu ddileu faint o wastraff a gynhyrchwn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi; a
- chodi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar ein staff i ddeall sut y gallant wella'r amgylchedd drwy eu hymddygiad yn y gwaith ac yn y cartref.

I’n helpu i fesur pa mor effeithiol y buom, byddwn yn monitro’n defnydd ar ynni a’r CO2 a gynhyrchir o ganlyniad i’r defnydd hwnnw ac yn cyhoeddi data yn ein hadroddiad blynyddol.

Drwy gymryd camau i gyflawni'r amcanion hyn, credwn y gallwn wneud gwahaniaeth i ecoleg y byd o'n cwmpas, a dangos bod yr ICO yn ddinesydd corfforaethol da.

Ein Camau Ni

Grŵp Gwyrdd

Bydd gan yr ICO 'Grŵp Gwyrdd' o staff i gynghori, llywio a chefnogi'r sefydliad i gyflawni ei nodau amgylcheddol a datblygu mentrau newydd.

Lleihau'r dŵr a’r ynni a ddefnyddir

Wrth i'n niferoedd staff a'n defnydd ar adeiladau gynyddu, bydd yn anodd lleihau swm gros y dŵr a’r ynni a ddefnyddiwn. Yn fwy realistig, gallwn weithio i leihau faint o’r cyfleustodau hyn a ddefnyddiwn fesul gweithiwr. I gyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio goleuadau ynni effeithlon â synwyryddion sy'n diffodd y goleuadau’n awtomatig pan nad oes eu hangen.
- Ystyried effeithlonrwydd ynni wrth brynu offer seilwaith busnes megis TG a gweinyddion, peiriannau gwerthu ac offer trydan arall.
- Chwilio am gyfleoedd i sicrhau gwell effeithlonrwydd ynni yn ein hadeiladau.
- Codi ymwybyddiaeth ein staff a’u hannog i weithredu mewn ffordd effeithlon o ran ynni, fel diffodd offer pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Lleihau a gwrthbwyso CO2

Mae cynhyrchu CO2 yn ganlyniad sy'n anodd ei osgoi i unrhyw sefydliad. Byddwn yn gweithio i leihau faint o CO2 sy'n deillio o'r hyn a wnawn gan geisio gwrthbwyso'r hyn na ellir ei osgoi. Gwnawn hyn drwy gyfwng y canlynol:

- Ceisio prynu ynni sy’n defnyddio tariffau gwyrdd lle bo’n ymarferol.
- Dylanwadu ar landlordiaid mewn adeiladau lle nad ydym yn rheoli'r cyflenwad ynni i ystyried a gweithredu tariffau ynni gwyrdd.
- Ystyried cynlluniau gwrthbwyso Carbon Deuocsid, a chyfrannu at raglenni sy'n gwrthbwyso'r allyriadau a gynhyrchwn.

- Defnyddio technoleg i leihau faint o deithio a wnawn ar fusnes.
- Hybu beicio i'r gwaith a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â hwyluso gallu’r staff i weithio gartref.
- Ceisio gwybodaeth am berfformiad amgylcheddol cyflenwyr wrth inni gaffael nwyddau a gwasanaethau, a chynnwys hyn yn ein proses benderfynu.

Rheoli ac ailgylchu gwastraff
Y ffordd fwyaf effeithiol i reoli gwastraff yw peidio â'i gynhyrchu yn y lle cyntaf. Gan hynny, gweithiwn gyda'n cyflenwyr i leihau faint o ddeunydd pacio a ddefnyddir wrth anfon nwyddau atom o'r tu allan.

Mae’n anochel y caiff rhywfaint o wastraff ei gynhyrchu mewn sefydliad o'n maint ni, ac felly gweithiwn yn galed i leihau ei effaith negyddol drwy’r canlynol:

- Contractio gyda chyflenwyr rheoli gwastraff sy'n ailgylchu cymaint o'n cynhyrchion gwastraff â phosibl a defnyddio gweddill y gwastraff mewn ffordd gyfrifol. Ein nod yw peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau rhwygo papur yn cael eu darparu gan gyflenwyr sy'n ailgylchu’r papur wedi'i rwygo.
- Prynu cynhyrchion ailgylchadwy lle bo'n ymarferol e.e. cwpanau papur.

Lleihau'r defnydd ar gynhyrchion untro, plastigau a chemegau niweidiol lle bo'n ymarferol
Byddwn yn ymwybodol o ganlyniadau amgylcheddol y pethau a brynwn a'r prosesau a weithredwn. I gyflawni hyn, gwnawn y canlynol:

- Rhoi’r gorau i ddefnyddio cwpanau plastig i’w taflu, gan ddarparu poteli dŵr a all gael eu hailddefnyddio i’r staff.
- Annog pobl i ddefnyddio mygiau a chwpanau i gael diodydd o beiriannau gwerthu yn lle defnyddio cwpanau papur.
- Defnyddio cyllyll a ffyrc pren cynaliadwy yn lle rhai plastig ar gyfer digwyddiadau.
- Defnyddio cyn lleied â phosibl o fagiau plastig mewn biniau yn ein swyddfeydd.
- Ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr glanhau ddefnyddio cynhyrchion glanhau ecogyfeillgar.

Codi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar ymddygiad
Bydd y camau a gymerir gan ein staff yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein llwyddiant wrth weithredu'r polisi hwn. Rydym am

fanteisio ar y cyfle i addysgu a hysbysu ein pobl. Gan hynny, fe fyddwn:

- Yn rhoi gwybodaeth i'r staff am sut y gallant ddefnydd llai o ynni yn y swyddfa ac yn y cartref.
- Yn parhau â buddion fel ein cynllun beicio i'r gwaith a'n menter benthyciadau tocynnau tymor trafnidiaeth gyhoeddus.
- Yn annog pobl i rannu ceir a hwyluso rhoi hyn ar waith.
- Yn ceisio defnyddio cymhellion i'r staff weithredu mewn ffyrdd sy'n amgylcheddol gyfrifol.
- Fel cyflogwr mawr yn Wilmslow, yn cysylltu â mentrau lleol ac yn cefnogi'r rhain ar faterion amgylcheddol, gan ystyried cyfleoedd i wneud yr un peth yn ein swyddfeydd rhanbarthol.

Hanes y ddogfen

Awdur	Statws	Newid	Dyddiad
Michael Collins	V0.2 Drafft	Ei chreu fel Polisi Amgylcheddol i'r ICO a adolygwyd gan y Grŵp Gwyrdd	13/09/19
Dave Wells	V0.3	Ychwanegu'r ddalen deitl ac ehangu ei chwmpas i gynnwys cynllun Adran 6	15/11/19
Dave Wells	V1.0	Cymeradwywyd V0.2 gan yr Uwch Dîm Arweinwyr ar 25/11/10 Cymeradwywyd V0.3 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau 4/12/19	6/12/19